NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Cysylltu prosthesisau ag asgwrn y goes neu'r fraich yn uniongyrchol gan ddefnyddio mewnblaniad drwy'r croen i mewn i'r asgwrn

17 Rhagfyr 2024

Nid oes digon o dystiolaeth sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio yn y tymor hir ac mae tystiolaeth o gymhlethdodau difrifol. Felly gellir ond ei wneud gyda threfniadau arbennig. Mae hyn yn golygu y byddwch yn cael apwyntiadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Os bydd rhan o goes neu fraich, neu goes neu fraich gyfan person ar goll adeg geni neu os caiff ei thorri, gall ddefnyddio coes neu fraich artiffisial (prosthesis). Mae gan brosthesis soced fel arfer, sef y rhan sy'n ffitio'n dynn o gwmpas pen y goes/braich goll (y bôn). Yna, caiff ei gadw yn ei le drwy sugnedd neu drwy ddefnyddio strapiau. Gall ffit wael arwain at gosi a heintio'r croen. Yn y driniaeth hon, caiff mewnblaniad metel ei fewnosod drwy'r croen ac i mewn i ganol asgwrn y bôn. Yna, gellir cysylltu prosthesis â'r mewnblaniad (cysylltiad esgyrnog uniongyrchol). Y nod yw cynhyrchu ychwanegiad mwy cyfforddus a diogel i'r prosthesis ac i atal heintiau.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar drychu fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio'r hyn y mae trefniadau arbennig yn ei olygu.

Gall Blesma, The Limbless Veterans (0208 590 1124 neu , bsoprosthetics@blesma.org) roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-9002-3